

Negyddol Arfaethedig Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

26 Medi 2022

pNeg(6)003 – [Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion \(Diwygio\) \(Cymru\) \(Ymadael â'r UE\) 2022](#)

Gweithdrefn: Negyddol arfaethedig

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran gweithredadwyedd i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 a Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017.

Mae Llywodraeth Cymru yn esbonio yn ei Memorandwm Esboniadol fod y gwelliannau hyn yn "ofynnol o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd" a'u bod "yn diwygio is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â marchnata hadau a deunyddiau plannu ffrwythau i gywiro diffygion o ran gweithredadwyedd na roddwyd cyfrif amdanynt mewn offerynnau diwygio cynharach."

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Y Ddeddf wreiddiol: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Gofynion sifftio wedi'u bodloni: Ydyn

Rydym yn cytuno mai'r weithdrefn penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

